

PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd at 3 Hydref 2023

YN BRESENNOL: Yn cynrychioli'r Cyngor Sir

Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)
Cynghorydd Margaret M Roberts

Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/ Cymuned

Mr Gordon Warren

Aelodau Annibynnol

Dr Teleri M Jones

WRTH LAW: Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) (MY),
Swyddog Pwyllgor (MEH).

YMDDIHEURIADAU: Dim

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Bu'r Cynghorydd Dylan Rees ddatgan diddordeb personol yn Eitem 4 ar agenda. Bu ddatgan ei fod yn adnabod un o'r ymgeiswyr wedi iddo gyd-eistedd af ar y Cyngor lechyd Cymunedol.

2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi, 2023 fel cofnod cywir.

3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-

“Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriadig ei datgelu fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”

4 I GYNNAL CYFWELIADAU AR GYFER RÔL AELOD ANNIBYNNOL AR Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y

Cyngor)/Swyddog Monitro ar y broses gyfweled ar gyfer ymgeiswyr ar y rhestr fer i'w penodi i'r sedd wag fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau.

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd nad oedd yn gallu mynychu'r cyfarfod blaenorol am resymau personol. Cyflwynodd y Cadeirydd Aelodau'r Panel a rhoddodd drosolwg i'r ymgeisydd o rôl aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau ac eglurodd y broses benodi.

Ystyriwyd yr ymgeisydd yn erbyn y meini prawf a amlinellwyd yn yr adroddiad a chynhaliwyd y cyfweiliad gan y Panel.

Cafodd yr ymgeiswyr a fynychodd y cyfarfod blaenorol a'r ymgeisydd yn y cyfarfod hwn eu hystyried yn erbyn y meini prawf a **PENDERFYNWYD:-**

- **Bod y Panel yn dewis un ymgeisydd i'w henwebu gan y Panel ar gyfer eu penodi i'r Pwyllgor Safonau;**
- **Gofyn am eirida ar gyfer yr ymgeisydd llwyddiannus;**
- **Bod Cadeirydd y Panel yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn, ar y cyfle rhesymol cyntaf, yn enwebu'r ymgeisydd llwyddiannus (yn amodol ar eiridaon llwyddiannus);**
- **Bod Cadeirydd y Panel yn argymhell i'r Cyngor llawn, bod yr ar ail ymgeisydd ar y rhestr fer ('yr ail ddewis') a'r trydydd ar y rhestr fer ('y trydydd dewis') yn cael eu penodi yn awtomatig i unrhyw swyddi gwag pellach a allai godi fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau petai achos o'r fath yn codi yn ystod y deuddeg mis nesaf (yn amodol ar eiridaon boddhaol a chytundeb yr ymgeiswyr).**

**CYNGHORYDD DYLAN REES
CADEIRYDD**